## Cylch Meithrin Pontrobert, Powys:

Cylch Meithrin Pontrobert supported by Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs CYMell Project expands their provision to include an After School Childcare Club for children up to the age of 12 answering parents' need for afterschool care as well as to attract more children to the Cylch.

**Summary**

Established for over 30 years, Cylch Meithrin Pontrobert based in a village hall in the rural village of Pontrobert, Powys promotes education and development for children from two years old to school age. After receiving specialist business support funded through the **CYMell Project** from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Welsh Language Development Officers; financial assistance through the CIW (expansion) grant and fully funded Playwork training, the Cylch successfully expanded their provision to include Out of School Childcare for children up to the age of 12 in September 2024.

**Background**

The school offers a breakfast club for its pupils in which the Cylch's 3+ children can attend club before going to the Cylch. The demand for an Afterschool Childcare Club has been evident for some time with the school's parents asking for an After School Childcare but it was not possible for the school to run it. In addition to this, it was also necessary for the Cylch Committee to consider how best to attract more children to attend the Cylch in order to balance their income and expenditure. Offering an After School Childcare Club answered the school parents' need for care whilst working as well as offering longer days for the children of the Cylch.

"The working parents certainly wanted this care after school. Until now, they had to adjust their working days or ask for help from family and friends. Establishing the club gave them a little more independence when organising care."

**CYMell Funding, Support and Training.**

There were so many benefits in expanding this service.

"We have a strong team - the committee, the cylch staff and the club staff who are able to work together for the sake of the children."

"Receiving the grant has been amazing to establishing the club. We have been able to use it to pay for First Aid qualifications as well as Child Protection which are essential for meeting the needs of CIW. It was also possible to pay the staff to attend the 'Playworker' training so that both could finish the course in the first months of the club."

Two members of staff already held a Level 3 Childcare qualification which meant that they were eligible to undertake the Level 3 Award in Transition to Playwork (ATPW) building on their established knowledge and qualified them as a Level 3 Playworker for **all settings**. "The feedback from the staff has been very positive and has brought a number of suggestions back to the committee from their tutors. This was a great help when establishing the Cylch and as it progressed."

“Clybiau Plant Cymru, and Sian James in particular, have been a constant support for us. Since the first meeting, she has been knowledgeable in providing the clear information regarding the exact steps we needed to take when working through the process of setting up the club. She is available at short notice and understands the needs of our committee when setting up the club. We get an email from her often to see if we need any help - without trying to push us. It gives us confidence as a committee knowing that there is so much support for us - thanks again Sian. Clybiau Plant Cymru had not been on our radar until recently but indeed it was so beneficial to have so much informed support.”

**Impact**

The club is a long-term investment in the community and enables parents to extend their working hours without having to rely on friends and family for support with childcare. “We hope that the longer opening hours will be more attractive for parents to consider using Cylch Meithrin Pontrobert and Ysgol Pontrobert in order to maintain and grow these institutions and grow the Welsh language in Bro Efyrnwy.”

“Like all new ventures, obviously not everything has run smoothly, but with the help of Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs and the Playwork course tutors, the staff and committee manage to steer the club in the right direction so far. The staff and children have settled in well, as if the club had always been there.”

**Sian Preece, Cylch Meithrin Pontrobert**
30/10/2024

Have you considered expanding your provision to include and Afterschool Club or a Holiday Club for children up to the age of 12?

Have you been approached by parents to do so?

Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs are here to help!
Through our CYMell project we can support Cylchoedd Meithrin, to expand your provision to include Out of School care for the children and families within your community. You will be able to offer more affordable childcare to support families, allowing parents and carers to return to work or train and enabling them to access The Childcare Offer and Tax-Free Childcare.

*Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs can offer your club.*

## Cylch Meithrin Pontrobert, Powys:

Mae Cylch Meithrin Pontrobert, gyda chefnogaeth Prosiect CYMell Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, yn ehangu eu darpariaeth i gynnwys Clwb Gofal Plant Ôl-Ysgol i blant hyd at 12 oed sy'n ateb anghenion rhieni am ofal ar ôl ysgol yn ogystal â denu mwy plant i'r Cylch.

**Crynodeb**

Wedi'i sefydlu ers dros 30 mlynedd, mae Cylch Meithrin Pontrobert, sydd wedi'i leoli mewn neuadd bentref ym mhentref gwledig Pontrobert, Powys yn hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Ar ôl derbyn cymorth busnes arbenigol a ariannwyd drwy **Brosiect CYMell** gan Swyddogion Datblygu'r Gymraeg Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs; cymorth ariannol drwy grant AGC (ehangu) a hyfforddiant Gwaith Chwarae wedi'i ariannu'n llawn, ehangodd y Cylch eu darpariaeth yn llwyddiannus i gynnwys Gofal Plant All-Ysgol i blant hyd at 12 oed ym mis Medi 2024.

---

**Cefndir**

Mae'r ysgol yn cynnig clwb brecwast i'w disgyblion lle gall plant 3+ y Cylch fynychu clwb cyn mynd i'r Cylch. Mae'r galw am Glwb Gofal Plant Ôl-Ysgol wedi bod yn amlwg ers peth amser a rhieni'r ysgol yn gofyn am Ofal Plant ar ôl oriau ysgol ond nid oedd modd i'r ysgol ei redeg. Yn ogystal â hyn, 'roedd yn ofynnol hefyd i Bwyllgor y Cylch ystyried sut orau i ddenu mwy o blant i fynychu'r Cylch er mwyn mantoli eu hincwm a'u gwariant. Roedd cynnig Clwb Gofal Plant Ôl-Ysgol yn ateb angen rhieni'r ysgol am ofal tra'n gweithio, a hefyd yn cynnig dyddiau hirach i blant y Cylch.

"Yn sicr roedd y rhieni sy'n gweithio am gael y gofal yma ar ôl oriau ysgol. Hyd yma, roedd yn rhaid iddynt addasu eu diwrnodau gwaith neu ofyn am help gan deulu a ffrindiau. Fe wnaeth sefydlu'r clwb roi ychydig mwy o annibyniaeth iddyn nhw wrth drefnu gofal."

**Cyllid, Cefnogaeth a Hyfforddiant CYMell.**

Roedd sawl mantais o ehangu'r gwasanaeth hwn.
"Mae gennym dîm cryf – y pwyllgor, staff y cylch a staff y clwb sy'n gallu cydweithio er lles y plant."
"Mae derbyn y grant wedi bod yn anhygoel i sefydlu'r clwb. Rydym wedi gallu ei ddefnyddio i dalu am gymwysterau Cymorth Cyntaf yn ogystal ag Amddiffyn Plant sy'n hanfodol ar gyfer diwallu anghenion AGC. Roedd modd hefyd talu'r staff i fynychu'r hyfforddiant 'Gweithiwr Chwarae' er mwyn i'r ddau allu gorffen y cwrs yn ystod misoedd cyntaf y clwb."
Roedd gan ddau aelod o staff eisoes gymhwyster Gofal Plant Lefel 3 a oedd yn golygu eu bod yn gymwys i ymgymryd â Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae (ATPW) gan adeiladu ar y wybodaeth yr oedd ganddynt eisoes a'u cymhwyso fel Gweithiwr Chwarae Lefel 3 ar gyfer pob lleoliad.
"Mae'r adborth gan y staff wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi dod â nifer o awgrymiadau yn ôl i'r pwyllgor gan eu tiwtoriaid. Roedd hyn yn help mawr wrth sefydlu'r Cylch ac wrth iddo fynd rhagddo."

"Mae Clybiau Plant Cymru, a Sian James yn arbennig, wedi bod yn gefnogaeth gyson i ni. Ers y cyfarfod cyntaf, mae hi wedi bod yn wybodus wrth ddarparu gwybodaeth glir ynglŷn â'r union gamau oedd angen i ni eu cymryd wrth weithio drwy'r broses o sefydlu'r clwb. Mae hi ar gael ar fyr rybudd ac yn deall anghenion ein pwyllgor wrth sefydlu'r clwb. Rydyn ni'n cael e-bost ganddi hi'n aml i weld a ydyn ni angen unrhyw help - heb geisio ein gwthio. Mae'n rhoi hyder i ni fel pwyllgor o wybod bod cymaint o gefnogaeth i ni - diolch eto Sian. Nid oedd Clybiau Plant Cymru wedi bod ar ein radar tan yn ddiweddar ond yn wir bu mor fuddiol i gael cymaint o gefnogaeth wybodus."

**Effaith**
Mae'r clwb yn fuddsoddiad hirdymor yn y gymuned ac yn galluogi rhieni i ymestyn eu horiau gwaith heb orfod dibynnu ar ffrindiau a theulu am gymorth gyda gofal plant. "Gobeithiwn y bydd yr oriau agor hirach yn fwy deniadol i rieni ystyried defnyddio Cylch Meithrin Pontrobert ac Ysgol Pontrobert er mwyn cynnal a thyfu'r sefydliadau hyn a thyfu'r Gymraeg ym Mro Efyrnwy."
"Fel pob menter newydd, wrth gwrs nid yw popeth wedi rhedeg yn esmwyth, ond gyda chymorth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a thiwtoriaid y cwrs Gwaith Chwarae, mae'r staff a'r pwyllgor yn llwyddo i lywio'r clwb i'r cyfeiriad cywir hyd yn hyn. Mae'r staff a'r plant wedi ymgartrefu'n dda, fel petai'r clwb wedi bod yno erioed."

**Sian Preece, Cylch Meithrin Pontrobert**
30/10/2024

A ydych chi wedi ystyried cynyddu eich darpariaeth i gynnwys Glwb Ôl-Ysgol neu Glwb Gwyliau i blant hyd yn 12 mlwydd oed?

A oes rhieni wedi cysylltu â chi o ran gwneud hynny?

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yma i helpu!
Mae ein prosiect CYMell hwyl i'ch Cylchoedd Meithrin, i gynyddu eich cyfraniad i ofal All-Ysgol i blant a theuluoedd yn eich cymuned. Byddwch yn gallu cynnig gofal plant mwy fforddiadwy i deuluoedd, gan alluogi rhieni a gofalwyr i ddychwelyd i fyd gwaith neu i hyfforddi, a'u galluogi i gael mynediad at y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth.

*Cysylltwch â Ni i wybod mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gynnig i'ch clwb.*